# Adroddiad Penderfyniad Dinas a Sir Abertawe
# Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 13 Hydref 2023

## Mewn perthynas â honiad bod y Cyn-gynghorydd Cymunedol, Louise Thomas, wedi torri'r côd ymddygiad

### 1. Cyflwyniad

1.1 Dyma benderfyniad Pwyllgor Safonau Dinas a Sir Abertawe mewn perthynas â chwyn bod y cyn-Gynghorydd Louise Thomas o Gyngor Cymuned y Mwmbwls wedi torri'r Côd Ymddygiad.

1.2 Mae'r penderfyniad yn dilyn derbyn adroddiad a gyhoeddwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (yr Ombwdsmon) o dan adran 69 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, dyddiedig 21 Mawrth 2023, y cyfeiriwyd y mater at Bwyllgor Safonau'r Cyngor i'w ystyried yn dilyn hynny.

1.3 Penderfynodd y Pwyllgor Safonau ar ei ddyfarniad drwy wrandawiad llafar ar 13 Hydref 2023 a gynhaliwyd yn Ystafell Gaerloyw, Neuadd y Ddinas, Abertawe SA1 4PE (roedd yr aelod annibynnol Michaela Jones yn bresennol o bell drwy MS Teams). Cynrychiolwyd yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus gan Mr Leigh McAndrew a Mr Matt Phelps. Roedd y cyn-Gynghorydd Thomas yn bresennol yng ngwrandawiad y pwyllgor.

### 2. Honiadau

2.1 Yr honiadau a gynhwyswyd yn adroddiad yr Ombwdsmon oedd bod y cyn-Gynghorydd Thomas wedi torri Côd Ymddygiad y Cyngor fel y nodir isod:

"Roedd cwynion a wnaed gan y cyn-Gynghorydd Thomas i'r Ombwdsmon yn wamal ac, o ran cwynion a wnaed yn erbyn y Cynghorwyr Keeton ac Erasmus, yn faleisus ac yn flinderus. Methodd dderbyn yr arweiniad a ddarparwyd gan fy swyddogion, ni cheisiodd ragor o arweiniad, ac ni ddefnyddiodd Weithdrefn Datrys yn Lleol y cyngor, sy'n awgrymu y torrwyd paragraff 6 (1) (d) o'r Côd Ymddygiad" (fel y nodir ym mharagraff 72 o adroddiad yr Ombwdsmon dyddiedig 21 Mawrth 2023).

"Mae hysbysu aelod o'r cyhoedd ei bod wedi recordio cyfarfod cyfrinachol o'r cyngor yn gudd, a chynnig chwarae'r recordiad iddo, yn debygol o ddwyn anfri ar swyddfa a/neu awdurdod y cyn-Gynghorydd Thomas, sy'n awgrymu y torrwyd paragraff 6 (1) (a) o'r Côd Ymddygiad (fel y nodir ym mharagraff 76 o adroddiad yr Ombwdsmon dyddiedig 21 Mawrth 2023).

### 3. Gwrandawiad

3.1 Mabwysiadodd y Pwyllgor Safonau Weithdrefn Gwrandawiad y Pwyllgor Safonau ar gyfer ystyried achosion honedig o dorri atgyfeiriadau'r Côd Ymddygiad ar 18 Chwefror 2021.

3.2 Ar 23 Mehefin 2023 penderfynodd y Pwyllgor Safonau fod digon o dystiolaeth i symud ymlaen i gam nesaf y broses a bod y cyn-Gynghorydd Thomas yn cael cyfle i ymateb i'r honiadau ac adroddiad ymchwiliad yr Ombwdsmon.

3.3 Cadarnhaodd y cyn-Gynghorydd Thomas ei bod yn dymuno cael gwrandawiad llafar o dan y Weithdrefn. Cadarnhaodd swyddfa'r Ombwdsmon hefyd eu bod yn dymuno mynd i'r cyfarfod i gyflwyno eu hadroddiad i'r Pwyllgor. Trefnwyd cyfarfod Pwyllgor Safonau ar gyfer 13 Hydref 2023.

**4. Cam 1 – Canfyddiadau Ffeithiol**

4.1 Yng nghyfarfod y Pwyllgor Safonau ar 13 Hydref 2023, cytunodd y cyn-Gynghorydd Thomas ar y ffeithiau diamheuol a nodwyd yn adroddiad yr Ombwdsmon dyddiedig 21 Mawrth 2023 fel a ganlyn:

Paragraff 46: Roedd y cyn-Gynghorydd Thomas yn aelod o'r cyngor rhwng 10 Mai 2021 a 6 Ionawr 2022 ac eto rhwng 10 Mai 2022 a 18 Gorffennaf 2022.

Paragraff 48: Gwnaeth y cyn-Gynghorydd Thomas 9 cwyn i'm swyddfa am ei chyd-aelodau mewn 7 mis.

Paragraff 49: Ni wnaeth unrhyw un o'r cwynion a wnaed gan y cyn-Gynghorydd Thomas i'm swyddfa basio'r prawf 2 gam ac felly nid ymchwiliwyd iddynt gan na chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth o dorri côd ymddygiad.

Paragraff 50: Dywedwyd wrth y cyn-Gynghorydd Thomas gan fy swyddfa i ystyried fy arweiniad, gofyn am arweiniad gan y Clerc, Swyddog Monitro Cyngor Abertawe, ac Un Llais Cymru cyn gwneud cwynion, a cheisio hyfforddiant ar y Côd Ymddygiad.

Paragraff 51: Ni cheisiodd y cyn-Gynghorydd Thomas arweiniad gan Swyddog Monitro Cyngor Abertawe na Chlerc y Cyngor cyn gwneud unrhyw un o'i chwynion i'm swyddfa.

Paragraff 52: Cofnododd y cyn-Gynghorydd Thomas ran gyfrinachol o Gyfarfod Arbennig y Cyngor a gynhaliwyd ar 3 Rhagfyr 2021 a chynigiodd ei chwarae i Mr Williams.

Paragraff 53: Ni wnaeth y cyn-Gynghorydd Thomas chwarae'r recordiad o'r cyfarfod i Mr Williams. Rhannodd y recordiad â'r Heddlu, Archwilio Cymru a fy swyddfa.

Paragraff 54: Roedd y cyn-Gynghorydd Thomas yn ymwybodol ar yr adeg y cynigiodd chwarae'r recordiad i Mr Williams fod ei gweithredoedd yn debygol o fod yn gyfystyr â thorri'r Côd Ymddygiad.

Paragraff 55: Ymddiswyddodd y cyn-Gynghorydd Thomas o'r cyngor ar 6 Ionawr 2022 ac eto ar 18 Gorffennaf 2022. Nid yw hi'n byw yng Nghymru bellach.

4.2 Yng nghyfarfod y Pwyllgor Safonau ar 13 Hydref 2023, cytunodd y cyn-Gynghorydd Thomas ar y ffaith ddadleuol a nodwyd ym mharagraff 56 o adroddiad yr Ombwdsmon: A aeth y Cynghorydd Erasmus i'r cyfrif pleidleisiau ac anwybyddu'r cyn-Gynghorydd Thomas, fel yr honnir. Dywedodd y cyn-

Gynghorydd Thomas wrth aelodau'r Pwyllgor Safonau ei bod bellach yn cytuno nad oedd y Cynghorydd Erasmus yn bresennol yn y cyfrif pleidleisiau ddydd Gwener 6 Mai 2022.

4.3 Yng nghyfarfod y Pwyllgor Safonau ar 13 Hydref 2023 roedd y cyn-Gynghorydd Thomas yn anghytuno ag un o'r ffeithiau diamheuol a nodir ym mharagraffau 46 – 55 adroddiad yr Ombwdsmon, h.y. roedd y cyn-Gynghorydd Thomas yn amau paragraff 47 a oedd yn nodi "Nid aeth y cyn-Gynghorydd Thomas i hyfforddiant ar y Côd Ymddygiad, er yr archebwyd lle ar ei chyfer ar gyrsiau hyfforddiant Un Llais Cymru".

4.4 Dywedodd y cyn-Gynghorydd Thomas ei bod wedi mynd i ddigwyddiad hyfforddi a gynhaliwyd o bell o gwmpas mis Mehefin 2021. Ni allai'r cyn-Gynghorydd Thomas roi cadarnhad ynghylch pwy oedd darparwr y digwyddiad hyfforddi, dyddiad yr hyfforddiant na thystysgrif i gadarnhau ei bod wedi pasio'r hyfforddiant.

4.5 Ar ôl ystyried y sylwadau a wnaed gan y cyn-Gynghorydd Thomas, Mr McAndrew ac achosi i ymholiadau pellach gael eu gwneud gydag Un Llais Cymru ac Adran Gwasanaethau Democrataidd Cyngor Abertawe, ni allai'r naill na'r llall gadarnhau bod y cyn-Gynghorydd Thomas wedi mynd i'r hyfforddiant Côd Ymddygiad a gynhaliwyd ganddynt o gwmpas mis Mehefin 2021. Gadawodd aelodau'r Pwyllgor Safonau yr ystafell i ystyried eu penderfyniad.

4.6. Ailgynullodd aelodau'r Pwyllgor Safonau ar ôl dod i benderfyniad a hysbysu'r cyn-Gynghorydd Thomas eu bod wedi cytuno ar y ffeithiau a nodwyd yn adroddiad yr Ombwdsmon dyddiedig 21 Mawrth 2023, ar wahân i fater yr hyfforddiant Côd Ymddygiad. Canfu aelodau'r Pwyllgor Safonau nad oedd tystiolaeth i wrth-ddweud unrhyw beth a ddywedwyd yn adroddiad yr Ombwdsmon ynghylch diffyg hyfforddiant Côd Ymddygiad a'u bod wedi canfod, yn ôl yr hyn sy'n debygol, nad oedd y cyn-Gynghorydd Thomas wedi mynd i hyfforddiant Côd Ymddygiad.

## 5. Cam 2 – Torri'r Cod Ymddygiad

5.1 Ar ôl gwneud canfyddiadau ffeithiol symudodd y Pwyllgor Safonau i gam 2 gweithdrefn wrandawiad y Pwyllgor Safonau - A fethodd y Cynghorydd ddilyn y Côd.

5.2 Yn unol â gweithdrefn wrandawiad y Pwyllgor Safonau, gwnaeth y cyn-Gynghorydd Thomas sylwadau ynghylch a oedd y Côd Ymddygiad wedi'i dorri, gwnaeth Mr McAndrew sylwadau ynghylch a oedd y Côd Ymddygiad wedi'i dorri a gwnaeth y cyn-Gynghorydd Thomas sylwadau terfynol.

5.3 Yna gadawodd aelodau'r Pwyllgor Safonau'r ystafell i ystyried eu penderfyniad ynghylch a oedd y cyn-Gynghorydd Thomas wedi torri'r Côd Ymddygiad.

5.4 Ar ôl ystyried cynnwys adroddiad yr Ombwdsmon dyddiedig 21 Mawrth 2023, y dystiolaeth a oedd yn gynwysedig yn adroddiad yr Ombwdsmon, y ffeithiau y cytunwyd arnynt a'r sylwadau a wnaed, ailgynullodd y Pwyllgor Safonau a hysbyswyd y cyn-Gynghorydd Thomas gan y Cadeirydd fod y Pwyllgor yn

fodlon bod y cyn-Gynghorydd Thomas wedi torri paragraffau 6 (1) (a) a 6 (1) (d) o'r Côd Ymddygiad.

**6. Cam 3 - Cosbau**

6.1 Wrth ddod i'w penderfyniad ynglŷn â'r gosb briodol, clywodd y Pwyllgor Safonau sylwadau gan y cyn-Gynghorydd Thomas a Mr McAndrew a chymerwyd i ystyriaeth Ganllaw ar Gosbau Panel Dyfarnu Cymru.

6.2 Gadawodd aelodau'r Pwyllgor Safonau yr ystafell i ystyried eu penderfyniad ynghylch a ddylid rhoi cosb, ac os felly, natur y gosb ac ar ôl iddynt wneud penderfyniad, ailgynullodd aelodau'r Pwyllgor Safonau.

6.3 Dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau wrth y cyn-Gynghorydd Thomas fod aelodau'r Pwyllgor Safonau yn ystyried pa gosb, os o gwbl, i'w rhoi yn erbyn cefndir Canllaw ar Gosbau Panel Dyfarnu Cymru a'i ymagwedd 5 cam a oedd yn dempled defnyddiol er nad oedd yn rhwymo'r Pwyllgor Safonau. Ystyriodd aelodau'r Pwyllgor Safonau ddifrifoldeb torri rhannau 6 (1) (a) a 6 (1) (d) o'r Côd Ymddygiad, recordio cyfarfod cyfrinachol a'r cynnig i rannu'r recordiad hwnnw, gwrthod derbyn tystiolaeth a'r patrwm o gwynion i'r Ombwdsmon dros nifer o fisoedd.

6.4 Dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau wrth y cyn-Gynghorydd Thomas y canfu aelodau'r Pwyllgor Safonau fod yr effaith a gafodd y cwynion ar eraill, y diffyg myfyrio, diffyg mynd i hyfforddiant ar y Côd Ymddygiad, methiant i gael cyngor gan y Clerc neu Gadeirydd y Cyngor a'r methiant i ddefnyddio'r Weithdrefn Datrys Anghydfodau Lleol, a'r ffaith bod rhyw elfen o gynllunio wrth gofnodi cyfarfod pwyllgor cyfrinachol, yn ffactorau gwaethygol.

6.5 Dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau wrth y cyn-Gynghorydd Thomas y canfu aelodau'r Pwyllgor Safonau fod diffyg profiad y cyn-Gynghorydd Thomas, y ffaith bod y cyn-Gynghorydd Thomas wedi cydweithredu â'r Ombwdsmon a'r ffaith y gall fod gan y cyn-Gynghorydd Thomas bryderon gwirioneddol ynghylch yr hyn oedd yn digwydd yn y cyngor yn ffactorau lliniarol.

6. Ystyriodd y Pwyllgor yr ystod o gosbau a oedd ar gael ac roeddent yn ymwybodol o'r sylwadau a wnaed gan yr Ombwdsmon ynghylch amgylchiadau lliniarol/gwaethygol a bod yr Ombwdsmon o'r farn bod cerydd neu fath cyfyngedig o waharddiad er lles y cyhoedd yn y mater hwn. Ystyriodd y Pwyllgor hefyd y sylwadau a wnaed gan y cyn-Gynghorydd Thomas a'r ffaith ei bod wedi cydweithredu â'r ymchwiliad gan yr Ombwdsmon.

6.7 Penderfynodd aelodau'r Pwyllgor Safonau ar y canlynol, gan hysbysu'r cyn-Gynghorydd Thomas ohonynt:

a. Canfuwyd bod y cyn-Gynghorydd Louise Thomas wedi torri Paragraffau 6 (1) (a) a 6 (1) (d) o'r Côd Ymddygiad.

b. Bod y cyn-Gynghorydd Louise Thomas yn cael ei cheryddu'n ffurfiol yn unol â Rheoliad 9 o Reoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001 (fel y'u diwygiwyd) am dorri Paragraffau 6 (1) (a) a 6 (1) (d) o'r Côd Ymddygiad.

c. Pe bai'r cyn-Gynghorydd Louise Thomas wedi bod yn Gynghorydd Cymuned sy'n gwasanaethu o hyd, byddai'r Pwyllgor Safonau wedi rhoi gwaharddiad o 6 mis, sef y cyfnod gwaharddiad uchaf y gallai'r Pwyllgor ei roi.

Mae copi o'r penderfyniad hwn wedi'i anfon at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac at y rheini a wnaeth honiadau a arweiniodd at yr ymchwiliad.

Os nad ydych yn fodlon ar benderfyniad y Pwyllgor Safonau, gallwch apelio i Banel Dyfarnu Cymru fel y nodir yn Rheoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001 (fel y'u diwygiwyd). Dyma'r ddolen i'r rheoliadau hyn: Rheoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001 (www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2001/2281/contents/made/welsh)

Fel y nodir yn y rheoliadau, rhaid cychwyn yr apêl drwy roi hysbysiad ysgrifenedig o fewn 21 diwrnod o dderbyn hysbysiad o benderfyniad y Pwyllgor Safonau i'r cyfeiriad canlynol:

Panel Dyfarnu Cymru
Uned Tribiwynlysoedd Cymru
PO Box 100
LLANDRINDOD
LD1 9BW

Mae'n rhaid i unrhyw hysbysiad apêl rydych chi'n ei wneud nodi: (a) y rhesymau dros apelio; a (b) a yw'r person sy'n rhoi hysbysiad o apêl yn cydsynio i'r apêl gael ei chynnal drwy sylwadau ysgrifenedig ai peidio.

Gellir darparu copi o'r hysbysiad penderfyniad hwn i chi yn Saesneg, os oes angen.

Yn gywir



**Adrian Jeremiah**

Cyfreithiwr Cyswllt
Associate Lawyer